

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty'r Tywysog Siarl -
Gwasanaethau Mamolaeth, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 26-28 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 1 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Uned Mamolaeth Ysbyty'r Tywysog Siarl Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyda'r nos ar 26 Medi ac ar y diwrnodau canlynol, sef 27 a 28 Medi 2022. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 21, sef ward gynenedigol (cyn esgor) a ward ôl-enedigol (ar ôl esgor) â 23 o welyau
- Uned a arweinir gan fydwragedd â thair ystafell geni a dau bwll geni
- Ward esgor (yn ystod y cyfnod esgor) â chwe ystafell esgor ac un pwll geni
- Ardal asesu brysbennu
- Clinig cynenedigol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ansawdd y prydau a ddarperir i'r cleifion
- Gweithio tuag at gyflawni achrediad UNICEF unwaith eto.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd i'w gweld
- Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da
- Roedd trefniadau da ar waith i roi cymorth profedigaeth i gleifion a'u teuluoedd.

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd prosesau da ar waith yn yr uned er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer asesu a lleddfu poen yn amserol a rheoli digwyddiadau clinigol, gan sicrhau y caiff gwybodaeth a gwersi eu rhannu ar draws y gwasanaeth. Gwnaethom rai argymhellion i wella rhai meysydd rheoli heintiau. Mewn rhai achosion, nid oedd prosesau monitro a chofnodi hanfodol yn cael eu cyflawni mewn modd amserol a chyson. Mae angen i'r bwrdd iechyd wella a monitro hyn ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyfathrebu â staff sy'n cylchdroi wardiau
- Rhai meysydd yn ymwneud â chadw cofnodion cleifion, gan gynnwys mwy o dystiolaeth o gofnodion mynych o symudiadau'r ffetws yn ystod ail gam y cyfnod esgor, a mwy o gofnodion monitro CTG cadarn mewn nodiadau

- Rhai meysydd yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau, gan gynnwys archwiliad allanol mwy cyfredol a chydymffurfiaeth â gofynion noeth o dan y penelin
- Niferoedd digonol o staff yn yr ardal brysbennu er mwyn sicrhau na chaiff cleifion eu gadael heb oruchwyliaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae amrywiaeth dda o gyfarfodydd ar waith i sicrhau y darperir gofal diogel, er enghraifft cyfarfodydd gwella gofal newyddenedigol a gofal mamolaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig. Gallai'r staff fanteisio ar hyfforddiant i'w galluogi i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth yn unol â'u rôl. Fodd bynnag, roedd rhai o'r sylwadau negyddol a wnaed gan y staff, a nifer y sylwadau negyddol a gofnodwyd ar yr holiaduron staff, yn achos pryder i ni. Er enghraifft, dywedodd rhai o'r staff wrthym am ddiwylliant negyddol canfyddedig ac nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael y cyfle i fynychu cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae angen gwella'r cyfathrebu a'r ymgysylltu rhwng uwch-reolwyr a rheolwyr canol a staff y wardiau, er mwyn meithrin cydberthynas llawn ymddiriedaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Uwch-dîm rheoli sefydlog a chyson ynghyd â chyfathrebu ac ymgysylltu gwell rhwng yr uwch-reolwyr a'r rheolwyr canol a staff y wardiau.
- Morâl y staff ac ystyried sylwadau llai ffafriol y staff a nodwyd yn ein holiadur staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith yn nhermau gweithgareddau archwilio rheolaidd a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion
- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cwblhawyd cyfanswm o ddau holiadur, ond gwnaethom siarad â nifer o'r cleifion yn ystod yr arolygiad, ac roedd eu sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o ran fy ngofal. Mae popeth wedi cael ei esbonio i mi a does arna i ddim ofn gofyn cwestiynau os nad ydw i'n deall unrhyw beth”

“Mae'r staff yn wych, a does dim byd yn ormod o drafferth.”

Cadw'n iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod swm da o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos mewn perthynas â bwydo ar y fron, cyngor ar gyswllt croen â chroen, iechyd meddwl ôl-enedigol, a chyngor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd. Gwelsom wybodaeth briodol yn annog pobl i roi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cyflawni Achrediad Cyfeillgar i Fabanod UNICEF yn 2018. Caiff achrediadau eu hadolygu bob tair blynedd ac, felly, nid oedd yr ysbyty yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn ar hyn o bryd. Dywedodd y staff wrthym fod cyfuniad o ffactorau yn gyfrifol am y ffaith nad oedd yr uned wedi cyflawni'r ailachrediad, gan gynnwys effaith pandemig COVID-19, prinder staff a diffyg cyfle i gynnal hyfforddiant staff. Mae Cydgysylltydd Bwydo Babanod profiadol newydd wedi'i phenodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n defnyddio ei harbenigedd i nodi materion a rheoli'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r ailachrediad yn ystod y flwyddyn nesaf.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y mwyafrif o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am eu profiad o gael gofal.

Gwelsom y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion gyda'u gofal personol. Gwnaethom edrych ar ddogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder ynghylch gofal ag urddas.

Roedd cyfleusterau en-suite ym mhob un o'r ystafelloedd geni ac ôl-enedigol, a oedd yn helpu i hybu cysur ac urddas y cleifion yn ystod eu harhosiad. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd toiledau a rennir ar gael gerllaw.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant profedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r polisiâu cywir i'w galluogi i roi gofal priodol i rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Roedd ystafell brofedigaeth bwrpasol yn yr uned. Drwy drafod â'r Fydwraig Profedigaeth gwelsom fod gofal profedigaeth yn cael ei ddarparu mewn modd amserol a sensitif. Disgrifiodd y Fydwraig Profedigaeth hefyd gynlluniau i ddechrau 'Clinig Enfys' i gleifion sydd wedi wynebu profedigaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi teimlo'n hyderus i ofyn am help neu gyngor pan oedd angen. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hefyd fod y staff bydwreigiaeth a'r staff meddygol wedi gwrandao arnynt yn ystod eu harhosiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff bob amser wedi siarad â nhw am eu dewisiadau geni.

Gwelsom fod staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid sifft. Cynhelir trosglwyddiadau bydwreigiaeth ar wahân gan nad yw sifftiau meddygol yn dilyn yr un patrwm gweithio. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol bob amser yn cynnwys staff bydwreigiaeth.

Yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo y buom yn bresennol ynddynt, gwelsom gyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau'r cleifion, gan gynnal parhad gofal. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i ddefnyddwyr gwasanaethau ddod o hyd i'r lle priodol i gael gofal.

Roedd manylion staffio dyddiol yn cael eu harddangos yn yr uned er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion pwy fyddai'n gofalu amdanynt. Roedd y byrddau'n llawn gwybodaeth berthnasol a phriodol i ddefnyddwyr gwasanaethau ac ymwelwyr.

Gwelsom bosteri, taflenni ac arwyddion dwyieithog mhob rhan o'r uned. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt. Roedd gan y staff yn yr ysbyty a oedd yn siarad Cymraeg wisg yn dangos eu bod yn gallu siarad yr iaith.

Gwelsom fod byrddau Cypolwg ar Statws Cleifion yn cael eu defnyddio ar y wardiau a'u bod yn cynnwys lefel briodol o wybodaeth am bob claf. Roedd y byrddau hyn yn cael eu cadw mewn ardaloedd dan glo o'r ward er mwyn er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn barod iawn eu cymwynas ac y byddent yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod holl anghenion y cleifion yn cael eu diwallu ac roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod hyn yn digwydd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y cleifion yn ogystal â siarad â'r cleifion. Drwy hyn, gwnaethom gadarnhau fod pob ward yn sicrhau bod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth a chysur, yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod adnodd sgrinio sepsis yn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welsom, a oedd yn helpu i nodi cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis. Gwelsom fod y camau y mae angen eu cymryd ar gyfer claf â sepsis wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom hefyd fod y bydwragedd a'r meddygon yn adnabod arwyddion a symptomau sepsis yn gyflym ac yn gweithredu'n unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Hefyd, gwelsom fod asesiadau poen yn cael eu rheoli'n dda, a bod y cleifion yn cael meddyginiaeth lleddfu poen mewn modd amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd y cyfleusterau'n hygyrch i bawb ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom dystiolaeth yn nodiadau'r cleifion o asesiadau parhaus o anghenion, ynghyd ag atgyfeiriadau at ymarferwyr arbenigol a grwpiau cymorth. Roedd cynlluniau geni unigol wedi'u dogfennu ac yn cynnwys dymuniadau ac anghenion unigol y claf.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol.

Hawliau pobl

Gwelsom y gallai partneriaid geni fod yn rhan o'r gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y cofnodion a welsom yn cadarnhau bod hyn yn digwydd.

Darparodd y staff enghreifftiau hefyd lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi meithrin cysylltiadau ag arweinydd arbenigol ym maes cydraddoldeb i bobl drawsryweddol ym Mhrifysgol Abertawe, er mwyn helpu'r staff i ddarparu'r cymorth a'r gofal cywir i'r unigolion ddefnyddio'r gwasanaeth ar sail gyfartal.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd gwybodaeth am y weithdrefn y dylai cleifion ei dilyn pe bai ganddynt bryderon neu gwynion am eu gofal i'w gweld ar wefan y bwrdd iechyd. Dywedodd y tîm uwch-reolwyr wrthym fod staff yr uned yn gwybod sut i ddelio â chwynion. Cadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym fod manylion y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael eu rhoi i gleifion ynghyd â chanllawiau Gweithio i Wella.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cyfathrebu'n barhaus â chleifion yn ystod unrhyw ymchwiliad i gŵyn, a bod teuluoedd yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff i drafod pryderon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio adborth gan y cleifion yn rheolaidd drwy gardiau adborth neu holiaduron. Mae'r tîm uwch-reolwyr yn gweithredu ar y canlyniadau ac yn eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd gwersi a ddysgwyd ac arfarniadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Ymddengys bod yr uned yn lân, wedi'i goleuo'n briodol ac wedi'i hawyru'n dda. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a gwelsom fod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel yn yr uned. Roedd mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bws staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad.

Roedd tystiolaeth o ymarfer herwgydio babanod a gynhaliwyd mewn uned mamolaeth arall yn y bwrdd iechyd, ynghyd â rhai gwersi a nodwyd a oedd wedi'u rhannu â'r staff. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymarfer tebyg wedi'i gynnal yn ddiweddar yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. O ganlyniad, argymhellir y dylid cynnal ymarfer herwgydio babanod yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn fuan.

Roedd clychau galw yn ystafell pob claf i'w defnyddio mewn argyfwng.

Gallai'r staff ddisgrifio'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r pwll a'r cyfarpar i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrthym y caiff hyfforddiant ar reoli sefyllfa lle bydd mam yn llewygu yn y pwll ei ddarparu fel rhan o ddiwrnod astudio PROMPT.

Bydd yr obstetregwyr ymgynghorol ar alwad naill ai'n aros mewn preswylfa ar y safle neu gallant deithio i'r uned mewn modd amserol.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod rhestrau gwirio priodol wedi'u cwblhau, ac y byddai unrhyw risgiau parhaus yn cael eu monitro. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod clustogau a matresi arbennig ar gael i'r cleifion pan fo angen.

Atal cwympiadau

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer cleifion yn yr uned yn ogystal â'r rheini sy'n defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw achosion o glaf yn cwmpo yn cael ei gofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er

mwyn sicrhau bod unrhyw wersi'n cael eu dysgu a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn eu cylch.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod yr ardaloedd clinigol yn lân ac yn daclus. Roedd lefelau isel o heintiau ym mhob ardal hefyd.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn. Gwelsom fod y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio hylif diheintio dwylo pan fo angen. Roedd posterï hylendid dwylo a chanllawiau ar olchi dwylo wedi'u harddangos uwchben y sinciau.

Gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff bydwreigiaeth yn dilyn yr arfer o fod yn noeth o dan y penelin, a bod rhai o'r staff yn gwisgo paent ewinedd.

Gwelsom fod amserlenni glanhau cyfredol ar waith ar gyfer yr uned a bod cyfarpar wedi'i labelu i ddangos ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

Rhodddwyd sicrwydd i ni hefyd fod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn cael ei gwblhau mewn modd amserol, a bod cydymffurfiaeth o 100% wedi'i gofnodi. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw bryderon a godwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgysyfeirio at yr uwch-aelodau o'r staff.

Cwblhawyd yr archwiliad atal a rheoli heintiau allanol diweddaraf ym mis Mai 2021. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliad allanol newydd ei gwblhau.

Caiff pob claf ei brofi am COVID-19 cyn neu wrth gael ei dderbyn neu cyn triniaeth ddewisol a drefnwyd. Ar gyfer derbyniadau heb eu trefnu, caiff cleifion eu profi wrth gael eu derbyn ac yna'u neilltuo i gilfan. Os bydd y canlyniad yn bositif, cânt eu hynysu a chynhelir profion dilynol ar unrhyw 'gysylltiadau agos' yn y gilfan.

Maeth a hydradu

Roedd cyfleusterau ar gael i staff y wardiau wneud bwyd a diodydd i gleifion y tu allan i oriau craidd, yn ogystal â gwasanaeth troli ar gyfer prydau bwyd lle y gallai cleifion mewnl archebu bwyd ymlaen llaw.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym y gellid gwella ansawdd y bydd, a'i fod weithiau'n oer. Dywedwyd wrthym, oherwydd cyfleusterau arlwyo cyfyngedig yn ardal y ward, y byddai byrbrydau ychwanegol i gleifion weithiau'n cael eu paratoi yn ystafell de y staff.

Dyweddod y staff wrthym fod y gegin ddynodedig i gleifion wedi'i haddasu yn ystod y pandemig er mwyn galluogi gweithdrefnau atal a rheoli heintiau gwell. Felly, roedd bwyd, diodydd a llestri a ddefnyddiwyd ar gyfer cleifion yn cael eu storio yn ystafell egwyl y staff, ac yn yr ystafell hon y byddai diodydd yn cael eu paratoi ar gyfer cleifion hefyd.

Rheoli meddyginiaethau

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaethau wedi'u gadael heb eu cloi. Codwyd hyn gyda'r staff, a unionodd y sefyllfa yn syth, a chafodd yr holl ddrysau eu cau a'r cypyrddau a'r oergelloedd eu cloi.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau rheolaidd o dymheredd yr oergell meddyginiaethau i fonitro bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Mae cymorth fferyllol ar gael i'r uned ac mae system gyfrifiadurol y tu allan i oriau yn galluogi'r staff i gadarnhau cyflenwadau cyffuriau ar draws yr ysbyty er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn rhoi meddyginiaeth i gleifion. Roedd cyflenwad o feddyginiaeth y gellid ei defnyddio gartref hefyd, er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Gallai staff y wardiau gael gafael ar weithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu.

Roedd Bydwraig Ddiogelu Arweiniol wedi'i phenodi ar gyfer y bwrdd iechyd, a oedd yn darparu cymorth a hyfforddiant i'r staff. Caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar ddiogelu sy'n cynnwys arweiniad ynghylch anffurfio organau cenedlu menywod, cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod. Yn gyffredinol, roedd y cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn dda iawn, gyda chydymffurfiaeth o fwy na 90%.

Roedd sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol yn annog y staff i drafod materion mewn sesiynau goruchwyllo grŵp. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth a dealltwriaeth dda ynghylch protocolau diogelu.

Mynegodd rhai o'r bydwragedd bryderon am y ffaith mai dim ond un fydwraig a neilltuir i'r ardal Brysbennu, sy'n cynnwys dwy ystafell ochr. Dywedasant fod yn rhaid iddynt fynd i'r Ward Esgor i wrando ar negeseuon ffôn a chael canlyniadau profion, gan olygu bod y cleifion yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth yn yr Ardal Brysbennu, a oedd yn risg ym marn y staff. Yn ogystal, pan fydd prinder staff, yn aml gofynnir iddynt gyflenwi yn yr Uned Asesu Dydd, sydd ar y llawr oddi tanynt. Cyfeiriodd y staff hefyd at brinder staff i gyflenwi yn ystod egwyliau bwyd pan fydd y Ward Esgor a'r wardiau yn brysur, gan olygu'n aml fod egwyliau'n cael eu rhuthro neu eu colli'n gyfan gwbl.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn gyffredinol, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar meddygol priodol ar gael iddynt i ddarparu gofal i'r cleifion. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff wrthym y byddai cyfarpar meddygol yn aml yn mynd ar goll o'r Ystafell Brysbennu, gan olygu bod bydwragedd yn colli amser yn ceisio dod o hyd i'r cyfarpar coll. Unwaith eto, roedd hyn yn peri risg pe na ellid cynnal arsylwadau mewn modd amserol neu pe bai'n rhaid gadael cleifion yn yr Ardal Brysbennu heb oruchwyliaeth. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol yn yr holiadur:

“Mae cyfarpar yn broblem gyson sy'n fy atal rhag darparu gofal da; mae aros i gyfrifiaduron weithio neu chwilio am gyfarpar yn ychwanegu amser at lwyth gwaith sydd eisoes yn drwm”

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system olrhain gadarn ar waith ar gyfer cyfarpar meddygol a bod y cyfarpar cywir ar gael i'r staff bob amser.

Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Gwelsom fod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn yr ystafelloedd pyllau geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau'n codi yn ystod genedigaeth dŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Gwelsom fod canllawiau ar gyfer argyfyngau obstetrig wedi'u harddangos yn glir ym mhob ystafell eni. Roedd y blychau cyffuriau brys wedi'u labelu'n glir ac yn hygyrch ar y Ward Esgor.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn gyfforddus ac yn cael gofal da, a chadarnhawyd hyn gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw. Roedd dulliau asesu a lleddfu poen ar gael i'r cleifion yn ystod y cyfnod esgor.

Gwelsom y staff yn blaenoriaethu angen clinigol a gofal y cleifion yn effeithiol yn yr uned ac, yn y cofnodion cleifion a welsom, roedd yn amlwg bod angen clinigol yn flaenoriaeth flaenllaw wrth gynllunio gofal.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallent ei roi i'w cleifion. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff eu bod yn gweithio sifftiau gormodol oherwydd prinder staff. Dywedwyd wrthym fod y staff yn symud o'r ward esgor a'r ward ôl-enedigol ar sail cylchdro 12 wythnos. Dywedodd y staff wrthym nad oedd hyn yn digwydd bob amser a'u bod yn teimlo eu bod yn colli sgiliau a hyder am eu bod yn aros mewn un ardal ward am fwy na'r cyfnod dynodedig. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan staff yn yr holiadur roedd:

“System gylchdroi gyfartal. Rwy'n llwyr o blaid gweithio mewn meysydd gwahanol er mwyn meithrin sgiliau i'r eithaf a cheisio creu morâl gwell ar draws y meysydd gwahanol, ond dylid sicrhau bod hyn yn digwydd mewn modd teg, a bod pawb yn cylchdroi.

Mae angen i'r uwch-reolwyr sicrhau y caiff penderfyniadau ynglŷn â chylchdroi staff eu rhannu â'r staff, a'u bod yn gwbl deg.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Esboniodd yr Arweinydd Ansawdd a Gwella fod yr ysbyty'n cydweithio â bwrdd iechyd cyfagos i wella targedau cenedlaethol mewn perthynas â chael gafael ar ofal mamolaeth. Nod y prosiect gwella yw digideiddio'r broses hon, fel y gall cleifion drefnu apwyntiadau gofal mamolaeth drostynt eu hunain.

Roedd Clinig Gwella Ansawdd wedi'i lansio'n ddiweddar, ac wedi denu llawer o ddiddordeb gan y staff. Gall unrhyw aelod o'r staff alw heibio i gynnig syniad ar gyfer prosiect gwella ansawdd. Rhoddir hyfforddiant ffurfiol i'r staff sy'n ymwneud â phrosiectau.

At hynny, ers i'r ysbyty gyflwyno asesiadau CTG ffisiolegol o'r ffetws, ni chafwyd yr un achos o HIE a oedd yn gysylltiedig â CTG yn ystod y 18 mis diwethaf.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn yr uned. Gwelsom fod rhai gwelliannau wedi'u gwneud ers ein hymweliad diwethaf gan fod cypyrddau y gellir eu cloi wedi'u gosod er mwyn cadw nodiadau'n ddiogel a sicrhau cyfrinachedd.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi i gyfrifiadur ei hun er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd aelod o'r staff a oedd wedi dychwelyd i'r gwaith yn ddiweddar ar ôl cyfnod o absenoldeb yn defnyddio manylion mewngofnodi cyffredinol gan nad oedd ei fanylion mewngofnodi ei hun yn gweithio. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gyfrineiriau unigol ar gyfer cyfrifiaduron.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion o safon dderbyniol, a bod cynlluniau gofal yn cael eu dogfennu'n dda rhwng timau aml-ddisgyblaethol. Yn ogystal ag edrych ar gofnodion cleifion ar y safle, gwnaethom hefyd gynnal adolygiadau pellach o gofnodion cleifion yn dilyn yr arolygiad yn sgil pryderon nad oedd symudiadau'r ffetws yn ystod ail gam y cyfnod esgor yn cael eu cofnodi mewn nodiadau. Drwy ein hadolygiadau o gofnodion, gwelsom waith tîm da rhwng y meddygon a'r bydwagedd. Roeddent yn cydweithio i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal gorau posibl. Gwelwyd bod cleifion, pe bai eu harsylwadau'n dangos bod eu cyflwr yn dirywio, yn cael eu hatgyfeirio am asesiad obstetrig mewn modd amserol ac yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol.

Er bod system MEWS ar waith, gwelsom nad oedd bob amser yn cael ei dogfennu'n drylwyr ar gyfer pob claf. Roedd hyn yn cynnwys peidio â chofnodi cyfradd resbiradu ar gyfer pob claf, a all helpu i nodi'n gynnar os yw cyflwr yn dirywio. Roedd hyn yn peri risg na fyddai unrhyw ddirywiad yn cael ei nodi mewn modd amserol.

Mewn un set o gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd rhwyg ail radd wedi'i bwytho gan nad oedd unrhyw waedu. Mewn set arall, gwelsom nad oedd y cyfangiadau, er eu bod wedi'u dogfennu ar bartogram, bob amser yn cyfateb i'r naratif a ddisgrifiwyd ar gyfer cyfnod esgor y claf. Mewn un achos, roedd hyn wedi arwain at roi meddyginiaeth i'r claf, o bosibl yn ddiangen. Yn ogystal, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- Roedd diffyg tystiolaeth yn y nodiadau o gofnodion o symudiadau'r ffetws yn ystod ail gam y cyfnod esgor.

- Roedd cyfradd curiad calon y ffetws yn cael ei chofnodi fel ffigur unigol yn hytrach nag amrediad, fel y nodir mewn canllawiau cenedlaethol
- Er bod asesiadau monitro CTG yn cael eu cynnal, nid oeddent bob amser yn cael eu monitro ac nid oedd camau bob amser yn cael eu cymryd yn eu cylch yn unol â chanllawiau cenedlaethol a lleol. Roedd hyn yn cynnwys bylchau mewn dogfennau monitro a diffyg monitro mewn rhai achosion.
- Roedd rhai llofnodion yn anodd eu darllen ac nid oeddent bob amser yn cynnwys aelodau o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth na'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.
- Nid oedd dogfennaeth a gwblhawyd gan fydwraig dan hyfforddiant bob amser yn cael eu cydlofnodi gan fydwraig gymwysedig.
- Nid oedd ocsigen yn cael ei gofnodi ar y siart presgripsiwn
- Roedd y dull llygaid ffres ar waith ac yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd hwn bob amser yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni a argymhellwyd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 56 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Cymysg oedd ymatebion y staff, gydag ychydig dros hanner ohonynt yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion, 35 allan o'r 56 ohonynt yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan yr ysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu, ac ychydig dros chwarter ohonynt yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith.

Teimlai bron pob un o'r staff a ymatebodd, sef 52 allan o'r 56 ohonynt, nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Teimlai llai na hanner y staff fod ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen ar y cleifion, a theimlai llai na chwarter ohonynt eu bod yn cael eu cynnwys wrth benderfynu ar newidiadau i'w cyflwyno sy'n effeithio ar eu maes gwaith. Dywedodd llai nag un rhan o bump o'r staff a gwblhaodd yr holiadur fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith.

Caiff rhai o ganlyniadau'r holiadur a sylwadau a wnaed gan aelodau o'r staff eu nodi yn adran llywodraethu'r adroddiad hwn.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwelliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf. Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni drwy raglen dreigl o archwiliadau, a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o'r staff i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol ac adborth gan gleifion a theluedd yn ymwneud â darparu gofal.

Roedd y cyfarwyddwr bydwreigiaeth yn arwain mewn modd ymroddedig a brwdfrydig, ac yn cael ei gefnogi gan dîm amlddisgyblaethol a bydwreigiaeth ymrwymedig. Fodd bynnag, cymysg oedd ymatebion y staff y cyfwelwyd â nhw pan ofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn teimlo bod y tîm uwch-reolwyr yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedodd y staff wrthym fod diffyg cyfrinachedd yn yr uned ynghylch materion personol y staff. Dywedodd rhai o'r staff nad oedd unrhyw gyfleoedd i gamu ymlaen ac nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi pan oedd swyddi gwag yn codi.

Dywedodd y staff hefyd nad oeddent yn cael fawr ddim adborth cadarnhaol gan y rheolwyr ar eu perfformiad, ond dywedodd rhai eraill eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan staff yn yr holiadur roedd:

“Fel staff, rydym wedi cwblhau nifer o arolygon yn ymwneud â morâl, gwelliannau sydd eu hangen a phryderon. Serch hynny, does dim byd wedi'i wneud gyda'r wybodaeth, does dim gwelliannau wedi'u gwneud, ac mae'n teimlo fel pe bai'r uwch-dîm yn anwybyddu'r adborth negyddol/pryderon a nodwyd gan y staff, ac nad yw'n cymryd unrhyw sylw o'r hyn sy'n digwydd ar yr uned na lles y staff”

“Mae newidiadau aruthrol wedi'u gwneud er gwell yn y bwrdd iechyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r staff wedi manteisio ar y newidiadau a wnaed ac wedi ei wneud yn lle llawer gwell i fenywod a'u teuluoedd.

“Mae angen i'r rheolwyr fod yn fwy amlwg a dod i wrando ar y staff a'u pryderon. Ceisio rhoi adborth cadarnhaol i'r staff yn hytrach nag adborth negyddol drwy'r amser”.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth fod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â diwylliant y staff a gwella cydberthnasau rhwng y staff a'r uwch-reolwyr. Roedd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi'i benodi i'r swydd yn ddiweddar, a dywedodd rhai o'r staff fod gwelliannau wedi'u gwneud a'u bod yn teimlo y byddai'r

materion diwylliannol a oedd yn weddill yn newid ymhen amser a'u bod yn cydnabod y byddai'r broses hon yn cymryd peth amser.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd y cyfarfodydd hynny'n cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth, cyfarfod bwrdd gwella gofal mamolaeth a gofal newyddenedigol, grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol a chyfarfodydd amlldisgyblaethol wythnosol.

Cynhelir cyfarfodydd risg a llywodraethu misol ar bob un o dri safle mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn trafod digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a chanfyddiadau, mewn fformat amlldisgyblaethol. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu llunio, a bod gwybodaeth a gwersi'n cael eu rhannu ar draws y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu.

Cadarnhaodd y tîm uwch-reolwyr y caiff camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol eu rhannu. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, gwallau y bu bron iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff mai prin y maent yn cael unrhyw adborth ffurfiol yn dilyn digwyddiadau, a bod hynny'n gyfle a gollwyd i ddysgu a gwella.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant yn yr uned yn dda, ac roedd 50 o'r 55 o staff yn cytuno bod eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygiad yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, sylwadau negyddol a gafwyd gan y staff ynghylch hyfforddiant yn yr holiadur, gan gynnwys:

“Roedd adeg pan oedd yn rhaid i ni gwblhau hyfforddiant gorfodol ond yn ddiweddar, oherwydd aciwtedd, mae'r fetron wedi adleoli staff yn annisgwyl i wneud gwaith clinigol.”

“Yn ein bwrdd iechyd ni, dyw diwrnodau hyfforddi ddim bob amser yn gyfle i ddysgu, allwch chi ddim mynegi pryderon na materion clinigol sy'n codi yn y lleoliad clinigol”

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau, a dywedodd rhai o'r staff wrthym nad oeddent yn teimlo bod y broses yn un ystyrllon ac nad oedd y cyfarfodydd hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn eu barn nhw. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn yr holiadur, ac roedd y sylwadau'n cynnwys:

“Mae'r staff yn aml yn cael eu diystyru pan fydd cyfleoedd yn codi; nid yw adolygiadau datblygiad personol yn ddim mwy nag ymarfer ar bapur, ac mae ceisiadau am ddatblygiad a dysgu pellach yn cael eu hanwybyddu”.

Gwelwyd thema gyffredin yn ymwneud ag anallu'r staff i gamu ymlaen yn eu rôl; nododd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent yn cael cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa a bod y tîm uwch-reolwyr yn targedu ac yn annog unigolion penodol i wneud cais am rolau. Teimlai'r aelodau o'r staff fod targedu o'r fath yn annheg ac, o ganlyniad, nad oeddent yn teimlo bod pwynt iddynt wneud cais am rolau newydd. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn teimlo bod swyddi gwag yn cael eu llenwi cyn iddynt gael eu hysbysebu.

Y Gweithlu

Roedd y lefelau staffio yn ymddangos yn briodol i gefnogi diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg yr arolygiad. Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prinder staff yn aml, ac y gofynnwyd i'r staff weithio sifftiau ychwanegol. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rotas ac ni welsom unrhyw brinder sylweddol.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y rotas bydwagedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Pe bai unrhyw brinder staff, dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn gweithio sifft ychwanegol neu y byddai'r uwch-reolwyr yn camu i'r adwy pe bai angen. Fodd bynnag, teimlai 52 allan o'r 56 o staff a gwblhaodd yr holiaduron nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Roedd yr holiadur yn gofyn cwestiwn i'r staff am sut y gallai'r ysbyty wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, ac roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Tîm Uwch-reolwyr sy'n weladwy, yn gweithio'n glinigol ac yn cefnogi'r staff”

“Sicrhau lefelau staffio a chymysgedd sgiliau priodol ar sifftiau a chadw staff”

“Ei gwneud yn haws cael gafael ar reolwyr a sicrhau eu bod yn fwy gweladwy. Mae angen rhoi blaenoriaeth i gyfrinachedd. Mae gwella'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau yn hanfodol”

“Rwy'n credu bod y staff clinigol yn darparu'r gofal gorau posibl o ystyried y problemau staffio rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd.”

Dywedwyd wrthym fod adolygiad o adnodd newydd Birth-Rate Plus wedi'i gomisiynu a bod lefelau staffio'n cael eu pennu ar hyn o bryd ar sail asesiad 2019 BR+.

Gwelsom fod prosesau uwchgyfeirio ar waith i'w defnyddio pan fo prinder staff, ac roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â nifer o fydwagedd dan hyfforddiant, a siaradodd yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad y maent yn eu cael gan y staff sy'n eu mentora ac yn eu cefnogi. Gwelsom dystiolaeth o raglen sefydlu ar gyfer y staff bydwreigiaeth, a dywedodd y staff wrthym fod y rhaglen hon wedi bod yn gymorth iddynt pan wnaethant ddechrau yn eu rôl.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r sylwadau a wnaed yn yr holiadur yn destun pryder mawr, gan gynnwys bod bydwragedd newydd gymhwys yn cael llawer mwy o waith na bydwragedd mwy profiadol:

“Cymorth annigonol. Does dim sôn am yr uwch-reolwyr. Mae rhai nad ydw i erioed wedi siarad â nhw, ac rwyf yn y swydd ers 12 mis”.

“Mae bwlio yn broblem fawr sy'n cael ei chelu. Mae myfyrwyr yn cael eu bwlio ond mae arnynt ormod o ofn dweud dim”

Rhaid i'r uwch-reolwyr a'r rheolwyr canol fyfyrrio ar yr adborth hwn. Roedd sawl agwedd ar yr adborth a gafwyd gan y staff ynghylch y rheolwyr yn destun pryder. Pan ofynnwyd i'r staff a yw eu rheolwr llinell uniongyrchol yn gofyn iddynt am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, roedd 12 ohonynt yn cytuno a 44 yn anghytuno.

Gwnaethom ofyn sut y gallai'r uned mamolaeth hon wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, a dywedodd y staff wrthym:

“Diwylliant gwell, mwy o staff, cyfleoedd teg i bob aelod o'r staff gamu ymlaen, mwy o gefnogaeth i staff ar ôl digwyddiadau, cymorth i staff ar gyfnod o absenoldeb oherwydd salwch, mwy o gyfleoedd hyfforddiant.”

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, dywedodd rhai nad oedd cyfarfodydd tîm bob amser yn cael eu cynnal. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal. Dylai'r rhain gael eu cynllunio er mwyn eu gwneud yn fwy ystyrlon, cefnogol a gwerthfawr i'r staff.

Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod mentrau newydd yn cael eu cyflwyno a bod y bwrdd iechyd ar fin lansio cynllun diwylliant a thaith arweinyddiaeth, a bod digwyddiadau ymgysylltu wrthi'n cael eu cynllunio.

Er mwyn pontio'r bwlch rhwng uwch-reolwyr a staff yr uned, dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod i'w gweld yn amlwg yn yr uned ac yn ceisio meithrin hyder ac ymddiriedaeth rhwng staff yr uned a'r uwch-reolwyr. Fodd bynnag, roedd yn amlwg drwy'r cyfweiliadau â'r staff a'r holiaduron nad oedd y staff bob amser yn teimlo bod yr uwch-reolwyr a'r rheolwyr canol yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dywedodd y staff fod gormod o newidiadau o ran rheolwyr wedi bod ers i'r bwrdd iechyd fod yn destun mesurau arbennig, a bod hyn wedi gwneud i'r staff deimlo'n anesmwyth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei uwch-reolwyr yn annog cydberthnasau cefnogol a chynhwysol fel bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, ac yn teimlo'n hyderus i fynegi barn a phryderon. Er mwyn gwneud hyn, mae angen

i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn darparu tîm sefydlog a chyson o uwch-reolwyr a rheolwyr canol sy'n hawdd mynd atynt ar gyfer pob aelod o'r staff.

Mae'n hollbwysig bod y bwrdd iechyd yn ymgysylltu'n fwy â'r staff ac yn cydweithio i ddod yn dîm mwy cydlynol sy'n cyfathrebu, yn ymgynghori, ac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd i wella'r amgylchedd gweithio i bawb a chynnig y gofal gorau posibl i'r cleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaethau wedi'u gadael heb eu cloi	Roedd hyn yn peri risg o fynediad heb awdurdod at feddyginiaeth	Gwnaethom godi hyn gyda rheolwyr yr adran	Unionwyd hyn yn syth a chafodd pob oergell a chwprdd ei gloi.

Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Uned Mamolaeth Ysbyty'r Tywysog Siarl

Dyddiad yr arolygiad: 26-28 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Mamolaeth Ysbyty'r Tywysog Siarl

Dyddiad yr arolygiad: 26-28 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cyflawni achrediad UNICEF unwaith eto.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	<p>Cyfryngau cymdeithasol, gwybodaeth wythnosol am fwydo</p> <p>Archwiliad o safonau BFI</p> <p>Dadansoddiad o fylchau BFI</p> <p>Recriwtio 0.4 bydwraig bwydo babanod CALL i gefnogi'r fydwraig gymunedol</p> <p>Dangosfwrdd data bwydo ar y fron a phrosiectau gwella ansawdd</p> <p>Hyfforddiant BFI ar gyfer y tîm uwch-reolwyr</p>	Cydgysylltydd Babanod Bwydo	<p>Cwblhau'r asesiad ar gyfer Achrediad Cyfeillgar i Fabanod UNICEF erbyn:</p> <p>Hydref 2023</p>

		Penodi Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso yn Warcheidwad Cyfeillgar i Fabanod		
Mae angen cynnal ymarfer herwgydio babanod cyfredol yn yr ysbyty	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cwblhawyd archwiliad herwgydio babanod blynyddol ym mis Awst 2022. Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill yn ystod yr ymarfer. Bwriedir cynnal yr ymarfer hwn yn flynyddol. Caiff canlyniadau'r ymarfer herwgydio eu cyflwyno yn y cyfarfod sicrwydd nesaf.	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Ionawr 2023
Rhaid i bob aelod o'r staff bydwreigiaeth fodloni'r gofynion o ran bod yn noeth o dan y penelin ac arfer hynny	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Caiff archwiliadau Noeth o dan y Penelin eu cwblhau'n fisol ac adroddir arnynt drwy'r AMaT (system archwilio electronig y bwrdd iechyd).	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn parhau

		Adroddir ar dueddiadau o ran cydymffurfiaeth drwy'r Grŵp Adrodd Ar Draws Gwasanaethau		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliad atal a rheoli heintiau mwy diweddar ei gwblhau.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r adran Atal a Rheoli Heintiau wedi archwilio pob ardal - Ward 21 ym mis Chwefror 2022 a'r Ward Esgor ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r archwiliadau hyn yn rhan o gylchoedd gwaith blynyddol a gynhelir gan yr adran Atal a Rheoli Heintiau.	Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	Cwblhawyd Rhagfyr 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod bwyd yn gynnes pan gaiff ei weini i'r cleifion.	2.5 Maeth a Hydradu	Cynhaliwyd archwiliadau hylendid a safonau bwyd gan yr awdurdodau lleol yn ddiweddar. Taflen sicrwydd gwasanaethau mamolaeth.	Arweinydd Cadw Tŷ/Cyfleusterau	Cwblhawyd Rhagfyr 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod bwyd yn cael ei baratoi mewn cegin briodol ar gyfer y cleifion	2.5 Maeth a Hydradu	E-bost gan yr adran cyfleusterau yn nodi mai'r gegin mamolaeth yw'r un fwyaf newydd a'i bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.	Arweinydd Cyfleusterau	Cwblhawyd Rhagfyr 2022

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob cwpwrdd meddyginiaeth yn cael ei gadw dan glo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Caiff pob oergell ei gwirio'n ddyddiol a chaiff y cofnodion eu cadw ar bob oergell. Caiff y wybodaeth hefyd ei chyflwyno drwy AMaT.</p>	<p>Uwch-fydwragedd</p>	<p>Cwblhawyd Rhagfyr 2022</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system olrhain gadarn ar waith ar gyfer cyfarpar meddygol a bod y cyfarpar cywir ar gael i'r staff bob amser.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Cyflwynwyd llyfr coch er mwyn i'r staff gofnodi unrhyw gyfarpar sydd wedi'i anfon i EBME i'w drwsio neu ei uwchraddio. Mater i'r fydwraig sydd â chyfrifoldeb am yr ardal yw sicrhau y caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei rhannu.</p>	<p>Uwch-fydwragedd</p>	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff penderfyniadau ynglŷn â chylchdroi staff eu rhannu â'r staff a'u bod yn gwbl deg.</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Caiff y system cylchdroi staff ei llunio gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Uwch-fydwraig, gan ystyried y cymysgedd sgiliau, nifer y staff sydd eu hangen i staffio'r sifft yn ddiogel, a'r meysydd y mae'r staff wedi gweithio ynddynt yn flaenorol fel rhan o'r system gylchdroi. Caiff y rhestrau eu hanfon at y staff drwy e-bost ac maent hefyd ar gael ar</p>	<p>Uwch-fydwragedd</p>	<p>Cwblhawyd Ionawr 2023</p>

		<p>y wal yn yr ystafell drosglwyddo. Cânt eu diweddarau bob tri mis.</p> <p>Os gofynnir am anghenion penodol, caiff y rhain eu hystyried.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gyfrineiriau unigol i fewngofnodi i gyfrifiaduron.</p>	<p>3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Technoleg Cyfathrebu</p>	<p>Bydd pob aelod o'r staff yn cyfarfod â'r arweinwyr gweithredol ar adeg eu penodi, pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch hirdymor a chyfnod mamolaeth. Cysylltir â'r adran TG a chaiff cyfrif e-bost newydd ei gofrestru neu caiff y cyfrif presennol ei ddiweddarau. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dor diogelwch data drwy Datix mewn perthynas â staff y defnyddio manylion mewngofnodi eraill, nac unrhyw achosion o staff yn rhoi gwybod eu bod yn methu â chael mynediad i'r systemau. Mae llythyr gan y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi'i ddsbarthu yn nodi safonau</p>	<p>Uwch-fydwagedd</p>	<p>Cyflwynwyd adolygiad dyddiol o Datix.</p> <p>Cwblhawyd Awst 2022</p>

		proffesiynol a rolau a chyfrifoldebau.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff siartiau MEWS eu defnyddio'n gywir, ac y caiff cyfraddau resbiradu eu cofnodi.	3.5 Cofnodion Cadw	Caiff archwiliad cadw cofnodion blynyddol ei gwblhau gan bob bydwaig drwy Oruchwylwyr Clinigol Bydwagedd. Mewnbynnir y canlyniadau i AMaT a chaiff cynlluniau gweithredu eu datblygu.	Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn parhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff nodiadau yn ymwneud â phartogramau eu cofnodi'n gywir	3.5 Cofnodion Cadw	Caiff archwiliad cadw cofnodion blynyddol ei gwblhau gan bob bydwaig drwy Oruchwylwyr Clinigol Bydwagedd. Mewnbynnir y canlyniadau i AMaT a chaiff cynlluniau gweithredu eu datblygu. Cynhaliwyd archwiliad diweddar yn lleol hefyd mewn perthynas â dogfennaeth y Llwybr Esgor Arferol.	Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn parhau.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Adolygwyd data ar ganlyniadau genedigaethau ar gyfer y tri mis	Bydwaig Arweiniol Llywodraethu Clinigol	Cwblhawyd Rhagfyr 2022

canllawiau yn ymwneud â rhwygiadau ail radd.		blaenorol a chafodd pob rhwyg ail radd ei bwyth.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaeth a roddir ei chofnodi ar siartiau cyffuriau.	3.5 Cofnodion Cadw	Caiff archwiliad cadw cofnodion blynyddol ei gwblhau gan bob bydwaig drwy Oruchwylwyr Clinigol Bydwragedd. Mewnbynnir y canlyniadau i AMaT a chaiff cynlluniau gweithredu eu datblygu. Mae Prif Fferylllydd Cymru wedi cytuno ar siartiau meddyginiaeth y Llwybr Esgor Arferol fel dull priodol ar gyfer dogfennu meddyginiaeth ar gyfer cyfnod esgor arferol heb gymhlethdodau.	Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn parhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion monitro'r ffetws yn gywir ac yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.	3.5 Cofnodion Cadw	Mae adolygu dogfennaeth mewn cyfarfodydd llywodraethu wythnosol y tîm amlddisgyblaethol yn rhoi sicrwydd o gywirdeb a chydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol. Mae'r uwch-dîm amlddisgyblaethol yn ymgymryd	Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd Bydwaig Arweiniol Llywodraethu Clinigol Bydwaig Arbenigol Goruchwyllo'r Ffetws	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn barhaus drwy adolygiadau wythnosol y tîm amlddisgyblaethol

			â gwaith goruchwyllo wythnosol er mwyn sicrhau y caiff gwersi i'w dysgu eu nodi a'u hymgorffori.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn perthynas ag asesiadau monitro CTG	3.5 cofnodion	Cadw	Drwy adolygu dogfennaeth yng nghyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaeth caiff unrhyw annormaleddau/bylchau mewn perthynas â goruchwyllo'r ffetws eu nodi. Lle y caiff bylchau eu nodi, disgwylir dogfennaeth i esbonio'r rheswm dros hynny. Mae'r uwch-dîm amlddisgyblaethol yn ymgymryd â gwaith goruchwyllo wythnosol er mwyn sicrhau y caiff gwersi i'w dysgu eu nodi a'u hymgorffori.	Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd Bydwraig Arweiniol Llywodraethu Clinigol Bydwraig Arbenigol Goruchwyllo'r Ffetws	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn barhaus drwy adolygiadau wythnosol y tîm amlddisgyblaethol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir adnabod llofnod pob aelod o'r staff ac y caiff rhifau pin y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth eu nodi.	3.5 cofnodion	Cadw	Mae'r archwiliad cadw cofnodion yn adolygu llofnodion y clinigwyr. Rhoddwyd stamp enw a phin/rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol i bob aelod o'r staff bydwreigiaeth a meddygol.	Archwiliad cadw cofnodion blynyddol Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd	Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn barhaus drwy adolygiadau wythnosol y tîm amlddisgyblaethol

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dogfennaeth a gwblheir gan fydwragedd dan hyfforddiant ei gydlofnodi gan fydrwaig.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Caiff archwiliad cadw cofnodion ei gwblhau gan bob bydwaig drwy sesiynau goruchwyllo blynyddol. Mewnbynir y canlyniadau i AMaT.</p> <p>Trafodir cydlofnodi yn sesiynau goruchwyllo blynyddol y bydwragedd.</p>	<p>Bydwaig Arweiniol Llywodraethu Clinigol</p> <p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd</p>	<p>Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn barhaus drwy archwiliad cadw cofnodion blynyddol.</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ocsigen ei gofnodi ar y siartiau rhagnodi.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Caiff rhagnodi ocsigen ei ychwanegu at archwiliad cadw cofnodion blynyddol 2023.</p> <p>Darperir canllawiau arfer gorau drwy gylchlythyr llywodraethu misol.</p>	<p>Goruchwyllydd Clinigol Bydwragedd</p>	<p>Chwefror 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adroddiad llygaid ffres ei gwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Caiff archwiliad cadw cofnodion ei gwblhau gan bob bydwaig drwy sesiynau goruchwyllo blynyddol. Mewnbynir y canlyniadau i AMaT.</p> <p>Caiff nodiadau a gyflwynir yng nghyfarfod risg y tîm amlddisgyblaethol eu hadolygu a</p>	<p>Bydwaig Arweiniol Llywodraethu Clinigol</p> <p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd</p>	<p>Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn barhaus drwy adolygiadau wythnosol y tîm amlddisgyblaethol</p>

		<p>chaiff unrhyw ddogfennaeth anghyflawn neu wallau sydd wedi digwydd eu hadrodd yn ôl i'r unigolyn a ddarparodd y gofal. Caiff unrhyw ddysgu ehangach ei rannu.</p>		
<p>Adolygu adnodd Birth Rate Plus a sicrhau bod y gofynion staffio yn briodol ar gyfer yr uned.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae'r sefyllfa bresennol o ran staffio yn cydymffurfio ag adroddiad Birth Rate Plus 2019.</p> <p>Mae ailasesiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chaiff y goblygiadau i'r gweithlu eu hystyried pan fydd yr adrodd wedi'i gwblhau.</p>	<p>Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	Chwefror 2023
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ymatebion y staff i'r holiaduron drwy gydol yr adroddiad hwn a rhoi diweddariad ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.</p>	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Mae Cynllun Gweithredu Ymgyrch Caring For You wedi'i roi ar waith, mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr undeb llafur.</p> <p>Cyfarfodydd misol â grwpiau penodol o staff a Phenaethiaid Bydwreigiaeth yr ardal i drafod unrhyw bryderon/syniadau</p>	<p>Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Cydweithwyr yn yr undeb llafur</p> <p>Hyrwyddwyr Ymddygiad Proffesiynol y Tîm Amlddisgyblaethol</p>	<p>Cwblhawyd Ionawr 2023 ac yn barhaus drwy adolygiadau wythnosol y tîm amlddisgyblaethol</p>

		Cyfarfod misol â chydweithwyr academiaidd yn y brifysgol Cod QR lleisiau'r staff er mwyn i'r staff godi unrhyw bryderon yn ddiennw.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sharon Davies

Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth Dros Dro Ysbyty'r Tywysog Siarl

Dyddiad: 10 Ionawr 2023